# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofalus Cyf**

**Fflat 1 Prospect Place**
**Crymych**
**SA41 3QQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gofalus Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gofalus CYF |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04/05/2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal rhagorol i bobl ac yn cael ei arwain yn effeithiol gan reolwr sydd â gweledigaeth glir. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar ofal a chymorth wedi'u teilwra'n benodol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan dîm o weithwyr gofal sy'n llawn cymhelliant ac wedi cael hyfforddiant addas.

Gall y bobl gael eu gofal a'u cymorth yn eu dewis iaith, ac mae nifer mawr o'r gweithwyr gofal yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg ac mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth i'r gwasanaeth, gyda rhai yn dweud eu bod yn cael tawelwch meddwl o wybod y gallant ddibynnu ar y staff yn Gofalus.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr gofal yn gwybod sut i nodi unrhyw bryderon diogelu a rhoi gwybod amdanynt. Maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff y bobl eu diogelu. Mae'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae llawer o'r gweithwyr gofal yn siarad Cymraeg, sy'n golygu y gall y bobl dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff hyn ei werthfawrogi gan y bobl. Mae gwybodaeth ar gael yn Gymraeg os bydd y bobl yn gofyn amdani, a dylai'r darparwr atgoffa'r bobl o hyn.

Mae'r cydberthnasau rhagorol rhwng y bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn nodwedd amlwg o'r gwasanaeth hwn. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo'n falch gweithio i Gofalus, ac mae'r bobl a'u perthnasau wedi argymell y gwasanaeth i eraill, a byddant yn parhau i wneud hynny. Caiff y gwasanaeth ei ddisgrifio fel *“brilliant”* a'r gweithwyr fel “*excellent”.* Dywedodd un perthynas fod y gwasanaeth yn golygu y gall ei rieni aros gartref gyda'i gilydd, sy'n werth y byd iddynt.

Mae'r bobl yn cael gofal gan wasanaeth sy'n ddibynadwy, yn broffesiynol ac yn hyblyg. Nid yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro, ac mae'r rotas yn drefnus, gan sicrhau bod digon o amser teithio ganddynt. Ceir lefel dda o gysondeb, ac mae'r bobl yn gweld eu gweithwyr gofal yn rheolaidd, ac yn gallu meithrin cydberthynas dda â nhw.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion papur yn cynnwys gwybodaeth gryno am yr unigolyn a'i anghenion gofal a chymorth. Ceir cynlluniau gofal ar gyfer amrywiaeth o feysydd gan gynnwys gofal personol, symudedd a maeth. Ceir asesiadau risg ar gyfer y safle er mwyn gwneud yn siŵr bod yr unigolyn a'r gweithiwr gofal yn parhau'n ddiogel. Ar hyn o bryd, mae'r darparwr yn adolygu'r gwaith papur a'r cynlluniau er mwyn cynnwys hanes personol manylach a fydd yn helpu i roi gwybodaeth i'r gweithwyr gofal am yr unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r cofnodion dyddiol yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod yr arwyddion sy'n gysylliedig â niwed o ganlyniad i friwiau pwyso ar y croen ac yn gwybod pwy y dylid rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon. O ganlyniad i'r cydberthnasau da rhwng y gweithwyr a'r bobl, gallant hefyd nodi unrhyw newidiadau o ran iechyd y bobl, gan roi gwybod i aelodau o'r teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol. Caiff meddyginiaethau ac elïau eu rhoi i rai o'r bobl, a gwnaeth un perthynas sylwadau ar y gwelliannau a welwyd i groen un o'r unigolion oherwydd y gofal a'r sylw a roddwyd gan y gweithwyr gofal.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn dda iawn. Dywedodd un unigolyn "*they are brilliant… absolutely wonderful… I can definitely have a bit of fun with them"* a dywedodd perthynas "*they are absolutely spot on…They are very nice people"* gan gyfeirio at y staff.

Nid yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro ac mae amser teithio wedi'i gynnwys fel rhan o'u rotas. Dywedodd un gweithiwr gofal bod y rheolwr yn gefnogol os bydd angen mwy o amser ar unigolyn o bryd i'w gilydd, a'i fod naill ai'n rhoi gwybod i'r unigolyn nesaf y bydd y gweithiwr gofal yn hwyr, neu'n helpu drwy ymgymryd â'r ymweliad ei hun. Cadarnhaodd y bobl nad yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro a bod digon o amser ganddynt yn aml i sgwrsio, a'u bod yn gwerthfawrogi hynny.

Caiff llais, dewisiadau a rheolaeth y bobl eu parchu. Gall y gweithwyr gofal ddisgrifio sut maent yn parchu preifatrwydd, urddas ac eiddo'r bobl, gan gydnabod fod y bobl yn ymddiried ynddynt drwy eu gwahodd i ddod i'w cartref. Cadarnhaodd y bobl, a'u perthnasau hyn gan ddweud eu bod hefyd yn teimlo'n ddiogel iawn gyda'r gweithwyr gofal a bod ganddynt lefel uchel o hyder ynddynt. Er bod gan y bobl gynlluniau gofal cynhwysfawr sy'n llywio'r gofal a'r cymorth, mae'r gweithwyr gofal yn hyblyg ac maent bob amser yn holi'r bobl am eu gofal ac yn ei addasu fel y bo angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r trefniadau llywodraethu er mwyn monitro ansawdd yn gadarn. Gall y bobl, eu cynrychiolwyr, a'r gweithwyr godi unrhyw syniadau neu bryderon ac maent yn hyderus y cânt ymateb defnyddiol ac amserol. Yr Unigolyn Cyfrifol yw'r rheolwr hefyd ac mae i'w weld yn rheolaidd yn y gwasanaeth. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan ddirprwy, uwch-weithwyr gofal a staff gweinyddol profiadol.

Mae'r rheolwr wedi gosod gwerthoedd y gwasanaeth, ac mae'r ffocws ar ofal wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol iawn am y rheolwr, ac mae'r sylwadau yn cynnwys, *"He is a really good boss; 100% listens; he really cares about the clients and staff".* Soniodd rhai o'r gweithwyr gofal am yr effaith y mae'r rheolwr wedi'i chael arnyn nhw a'u gwaith a sut mae ei arweinyddiaeth yn eu cymell. Mae rhai o'r gweithwyr wedi cael eu dyrchafu ac mae rhai yn cael hyfforddiant ychwanegol, gan ddangos bod eu sgiliau, eu brwdfrydedd a'u hanghenion datblygu yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant addas ac yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf, gan gynnwys meysydd fel symud a chodi a chario, gofal dementia, arferion diogel wrth roi meddyginiaethau ac atal a rheoli heintiau. Mae'r bobl yn dweud bod y staff yn fedrus ac yn wybodus. Mae aelodau newydd o staff yn treulio amser gyda gweithwyr gofal mwy profiadol er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod y bobl ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyn cynnal galwadau gofal ar eu pen eu hunain.

Mae'r sesiynau goruchwylio yn gyfredol ac mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael adborth cytbwys ar eu gwaith. Mae uwch-aelodau o'r staff hefyd yn cynnal hapwiriadau gan arsylwi ar feysydd gan gynnwys sut mae'r gweithwyr gofal yn ymddwyn; sut maent yn rhyngweithio â'r unigolyn a pha mor dda maent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Mae ffeiliau'r staff yn hawdd eu dilyn ac yn drefnus. Maent yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys gwiriadau diogelwch a geirdaon. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/08/2024